Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

**Atodiad 2**

# Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cyngor Sir Conwy

Dyddiad yr archwiliad gwreiddiol: 14 – 18 Medi 2015
Dyddiad yr ymweliad dilynol cyntaf: 22 – 23 Awst 2018

Dyddiad yr ymweliad archwilio: 17 – 18 Gorffennaf 2024

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.23 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid rhoi amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gwasanaethau gan ystyried y rheiny sydd ar gael, a dylid rhoi esboniad am unrhyw amrywiadau a nodwyd yn yr adolygiad gwasanaeth. [Y Safon – 3.1] | Gwyrdd | Diwygio'r asesiad o adnoddau sydd eu hangen yn erbyn y rhai sydd ar gael i gynnwys dadansoddiad ar draws gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau.<br>Sicrhau bod yr holl amrywiadau yn cael eu nodi a'u hesbonio yn ystod yr adolygiad blynyddol o'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau yn ymwneud ag ymyriadau safonau bwyd, hylendid bwyd a samplau pysgod cregyn, sefydliadau â sgôr hylendid bwyd categori E, arolygiadau heb sgôr a gwiriadau o gydymffurfiaeth â'r cynllun sgorio hylendid bwyd. | Roedd Cynllun Gwasanaeth 2024/25 wedi'i lunio i raddau helaeth yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth. | Sicrhau bod yr holl amrywiadau yn cael eu nodi a'u hegluro yn ystod yr adolygiad blynyddol o'r gwaith darparu gwasanaethau, gan gynnwys:<br>- cyflenwi rhaglenni samplu yn erbyn targedau a osodwyd<br>- prydlondeb yr ymateb i waith ymatebol (gan gynnwys hysbysiadau am glefydau heintus) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Sicrhau yr eir i'r afael â'r rhain (lle bo angen) fel meysydd i'w gwella. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 4.6 (i) Sicrhau bod yr holl ddogfennau a gweithdrefnau cofnodedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y bydd newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 5.10 (i) Sicrhau bod yr holl swyddogion awdurdodedig yn bodloni'r gofynion hyfforddi a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd; gan gynnwys hyfforddiant HACCP. [Y Safon – 5.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 5.10 (ii) Cadw cofnodion o gymwysterau academaidd perthnasol neu gymwysterau eraill ar gyfer swyddogion safonau bwyd awdurdodedig. [Y Safon – 5.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 6.8 (i) Sicrhau bod offer monitro tymheredd yn cael eu graddnodi'n aml a diwygio'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer graddnodi offer mesur tymheredd i gynnwys goddefiadau yn unol â | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 6.2] | | | | |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni’n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.23 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau mewn sefydliadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol, yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Ymdrinnir yn raddol ag ôl-groniad sylweddol o arolygiadau gan ganolbwyntio ar safleoedd risg uchel a heb sgôr. Mae ôl-groniad o ymyriadau categori D yn cynyddu. Does dim cynllun i ail-alinio’n llwyr â’r Cod. | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |
| 7.23 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau’r awdurdod. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau bod y sgôr risg a gyflwynwyd yn adlewyrchu arsylwadau’r arolygiad yn gyson ac y dilynir y broses gywir ar ôl cael y ffurflenni cofrestru. | Roedd pob gradd risg yn gyson ag arsylwadau swyddogion. Roedd y broses o ran ffurflenni cofrestru yn cael ei dilyn. | Cwblhawyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.23 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith, a chymryd camau priodol ynghylch unrhyw ddiffyg cydymffurfio sy'n cael ei ddarganfod, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] (Hylendid bwyd) | Glas | Sicrhau bod asesiadau trylwyr yn cael eu cynnal yn gyson mewn perthynas â HACCP (safleoedd nad ydynt wedi'u cymeradwyo), trafodaethau â sefydliadau sy'n trin bwyd a chynnal gwiriadau ar farciau adnabod a bwydydd sy'n cael eu mewnforio. | Trwy asesu HACCP, cafodd marciau adnabod a bwydydd sy'n cael eu mewnforio eu dogfennu.<br><br>Roedd trafodaethau â sefydliadau sy'n trin bwyd yn cael eu dogfennu lle'r oedd hynny'n berthnasol. | Cwblhawyd. |
| 7.23 (iv) Diwygio ei weithdrefn ar gyfer AES Hylendid Bwyd a gweithredu ei weithdrefnau cofnodedig yn llwyr mewn perthynas ag arolygiadau ac ailymweliadau â safleoedd bwyd. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7.23 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad Hylendid Bwyd yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | Glas | Sicrhau bod arsylwadau'n cael eu cofnodi'n gyson mewn perthynas ag asesiadau HACCP, trafodaethau â sefydliadau sy'n trin bwyd, gwiriadau ar farciau adnabod a bwyd wedi'i fewnforio, a manylion cyflenwyr. | Sylwadau'n cael eu cofnodi mewn perthynas ag argymhelliad 7.23 (iii) | Cwblhawyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.40 (i) Sicrhau bod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar amlder sy'n cyfateb i'r hyn a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Ymdrinnir yn raddol ag ôl-groniad sylweddol o arolygiadau gan ganolbwyntio ar safleoedd risg uchel a heb sgôr. Mae ôl-groniad o ymyriadau categori C yn cynyddu. Does dim cynllun i ail-alinio'n llwyr â'r Cod. | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |
| 7.40 (ii) Cynnal ymyriadau / arolygiadau safonau bwyd a chofrestru sefydliadau yn unol â deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau bod penderfyniadau ailymweliadau ac ymweliadau dilynol yn gyson â'r canfyddiadau. | Lle bo'n berthnasol, roedd yr ailymweliadau'n gyson â'r canfyddiadau. | Cwblhawyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.40 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol ar gyfer Safonau Bwyd. [Y Safon – 7.3] | Glas | Sicrhau bod asesiadau trylwyr yn cael eu cynnal yn gyson mewn perthynas â labelu bwyd, cyfansoddiad bwyd ac olrheiniadwyedd bwyd. | Roedd asesiadau yn ymwneud â labelu, cyfansoddiad ac olrheiniadwyedd yn gyson. | Cwblhawyd. |
| 7.40 (iv) Sicrhau bod y weithdrefn AES gofnodedig ar gyfer Safonau Bwyd yn adlewyrchu gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.40 (v) Sicrhau bod arsylwadau a/neu ddata a gynhyrchir yn ystod ymyriad/arolygiad Safonau Bwyd yn cael eu cofnodi'n brydlon i atal colli gwybodaeth berthnasol, a bod yr holl gofnodion o ymyriadau'n cael eu storio yn y fath ffordd fel y gellir eu defnyddio eto. [Y Safon – 7.5] | Glas | Sicrhau bod arolygiadau dirybudd yn cael eu cofnodi yn yr aide-mémoire a bod asesiadau'n ymdrin â gofynion labelu bwyd, cyfansoddiad bwyd ac olrheiniadwyedd bwyd yn gyson. | Mae arolygiadau dirybudd yn cael eu cofnodi, gan gynnwys rhesymau dros beidio â chofnodi arolygiadau, lle y bo'n berthnasol. Mae arsylwadau ynghylch gofynion labelu, cyfansoddiad ac olrheiniadwyedd yn cael eu cofnodi. | Cwblhawyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 8.9 (i) Datblygu ei weithdrefn ddogfenedig ymhellach mewn perthynas â chŵynion am fwyd a sefydliadau bwyd; a, diwygio'r weithdrefn i gynnwys manylion ei ddull o ymdrin â chŵynion mewn perthynas â bwyd sy'n tarddu o aelod-wladwriaethau eraill yr UE neu drydydd gwledydd. [Y Safon – 8.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 8.9 (ii) Sicrhau yr ymchwilir i gŵynion am hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod; gan gynnwys ymateb o fewn amserau targed, a chyfathrebu â'r holl bartïon perthnasol. [Y Safon – 8.2] | Glas | Sicrhau yr ymchwilir i gŵynion am safonau bwyd yn gyson a heb oedi. | Ymchwiliwyd i gŵynion am safonau bwyd yn ddi-oed. | Cwblhawyd. |
| 13.7 (i) Diwygio ei Gynllun Rheoli Achosion er mwyn cynnwys gwybodaeth leol. [Y Safon – 13.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 13.7 (ii) Diwygio a gweithredu ei weithdrefn gofnodedig ar gyfer ymchwilio i glefydau heintus yn llwyr i gynnwys y dull ar gyfer croesgyfeirio hysbysiadau cyffredin, a hynny er mwyn nodi'r tarddiad a'r camau dilynol a gynhelir yn y sefydliadau bwyd dan sylw. [Y Safon – 13.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 13.7 (iii) Sicrhau bod yr holl gofnodion sy'n ymwneud â rheoli ac ymchwilio i frigiadau o achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 13.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 14.5 (i) Datblygu'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer cychwyn ac ymateb i rybuddion bwyd ymhellach. Bydd y weithdrefn yn cynnwys trefniadau ar gyfer derbyn rhybuddion bwyd y tu allan i oriau. [Y Safon – 14.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| 15.19 (i) Adolygu a diwygio ei bolisi gorfodi i gynnwys meini prawf ar gyfer y defnydd o'r holl ddewisiadau gorfodi bwyd sydd ar gael a chyfeirio at Gynlluniau'r Prif Awdurdod a'r Awdurdod Cartref. [Y Safon – 15.1] | Glas | Cynnwys y meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl ddewisiadau gorfodi (gan gynnwys hysbysiadau cyfreithiol) a chynnwys cyfeiriad at gynllun yr Awdurdod Cartref. Cymeradwyo'r polisi gorfodi diwygiedig. | Mae'r polisi wedi'i adolygu a'i ddiweddaru i gynnwys y meini prawf ar gyfer yr holl ddewisiadau gorfodi, ac mae cynllun yr Awdurdod Cartref wedi'i gymeradwyo. | Cwblhawyd. |
| 15.19 (ii) Sefydlu, cynnal a rhoi gweithdrefnau gorfodi cofnodedig ar waith ar gyfer ymweliadau dilynol a chamau gorfodi, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | |
|---|---|---|---|---|
| 15.19 (iii) Sicrhau bod camau gorfodi hylendid bwyd yn cael eu cynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a sicrhau bod yr holl benderfyniad ar gamau gorfodi'n cael eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod. Cofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodir yn y Polisi Gorfodi. [Y Safonau – 15.3 ac 15.4] | Gwyrdd | Sicrhau amlder addas o wiriadau i wneud yn siŵr nad yw busnes yn gweithredu tra bo achos o gau gwirfoddol yn parhau i fod ar waith.<br>Sicrhau bod cytundebau ildio gwirfoddol yn cynnwys yr amser, y lleoliad a'r dull o ddinistrio'r bwyd.<br>Cynnwys datganiad / cytundeb i'r perchennog dalu'r treuliau rhesymol ar gyfer dinistrio neu waredu'r bwyd.<br>Sicrhau bod penderfyniadau gorfodi pellach mewn perthynas â safleoedd sydd wedi'u cau yn cael eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod. Dogfennu'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodwyd yn y Polisi Gorfodi. | Gwelliannau mewn perthynas â gwiriadau cydymffurfiaeth wrth gau'n wirfoddol.<br><br>Ni chyhoeddwyd ildiad gwirfoddol felly mae'n dal i fod heb ei brofi'n llawn. | Sicrhau bod cytundebau ildio gwirfoddol yn cynnwys yr amser, y lleoliad a'r dull o ddinistrio'r bwyd.<br>Cynnwys datganiad / cytundeb i'r perchennog dalu'r treuliau rhesymol ar gyfer dinistrio neu waredu'r bwyd.<br><br>Sicrhau bod penderfyniadau gorfodi pellach mewn perthynas â safleoedd sydd wedi'u cau yn cael eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod. Dogfennu'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodwyd yn y Polisi Gorfodi. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 16.8 (i) Cynnal cofnodion cywir a chyfredol y gellir cael gafael arnynt ar bob sefydliad bwyd perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys gwybodaeth gymeradwyo a chofrestru bwyd, adroddiadau'r holl ymyriadau/arolygiadau, y penderfyniad ynghylch cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion y camau a gymerwyd. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, ynghyd â rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1] (Hylendid bwyd) | Glas | Sicrhau bod elfennau craidd HACCP busnes yn cael eu cadw'n gyson, bod ffurflenni cofrestru ar gael ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio yn cael eu darparu o fewn adroddiadau arolygu.<br><br>Sicrhau bod ffotograffau / delweddau digidol a labeli a dogfennau masnachol sy'n cynnwys y marc adnabod yn cael eu storio mewn ffeiliau safleoedd cymeradwy (lle y bo'n briodol). | Roedd y ffeiliau a ddewiswyd yn cynnwys ffurflenni cofrestru cyfredol ac roedd cofnodion HACCP y busnes yn cael eu cadw.<br><br>Roedd adroddiadau arolygu'n cael eu hanfon o fewn yr amserlen gywir.<br><br>Roedd y ffeiliau cymeradwyo'n cynnwys ffotograffau o'r safle a marciau adnabod y | Cwblhawyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | safle ar y cynhyrchion terfynol. | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 16.14 (i) Cadw cofnodion safonau bwyd cywir a chyfredol ar ffeiliau sefydliadau bwyd gan gynnwys adroddiadau o'r holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau a wnaed gan swyddogion o ran cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, manylion y camau a gymerwyd pan nodwyd achosion o ddiffyg cydymffurfio a manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, ynghyd â rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1] (Safonau bwyd) | Glas | Sicrhau bod dogfennau a chofnodion eraill a archwilir yn cael eu cofnodi'n gyson a bod amserlenni ar gyfer cydymffurfio'n cael eu darparu. | Roedd cofnodion a arsylwyd yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn ffeiliau.<br><br>Lle bo'n berthnasol, roedd yr amserlen ar gyfer cydymffurfio wedi'i nodi yn yr adroddiad arolygu. | Cwblhawyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 19.9 (i) Adolygu a chyflwyno'r gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig yn llwyr er mwyn gwella'r asesiad ansoddol o'r ystod lawn o weithgarwch hylendid bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 19.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod y weithdrefn fonitro fewnol yn cael ei gweithredu'n llwyr i wella'r asesiad ansoddol o'r ystod lawn o weithgarwch hylendid bwyd a safonau bwyd. | Roedd y weithdrefn monitro mewnol gofnodedig wedi'i rhoi ar waith yn rhannol mewn perthynas ag ymyriadau awdurdodi swyddogion a rhywfaint o waith ymatebol. | Mae angen gweithredu'r system monitro mewnol ymhellach i gynnwys gwaith dilynol ar samplau, ymchwiliadau i glefydau heintus a gwiriadau cronfa ddata yn llwyr. |
| 19.9 (ii) Ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd, gwirio ei gydymffurfiaeth â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod. [Y Safon – 19.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu mewn perthynas â chynllunio gwasanaeth yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Safleoedd heb sgôr wedi'u blaenoriaethu yn unol â'r canllawiau | Cwblhawyd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gweithdrefnau ymyrryd yn sgil archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Gweithdrefnau ymyrryd wedi'u diwygio | Cwblhawyd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas ag adroddiadau arolygu yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Roedd adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth ddilysrwydd lawn | Cwblhawyd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gorfodi yn sgil archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Oren | | Polisi gorfodi wedi'i ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad at eiddo'r Cyngor. | Sicrhau bod materion o ran gorfodi'n cael eu huwchgyfeirio'n briodol mewn perthynas ag achosion mynych o dorri gofynion arddangos y CSHB ac nad yw rhybuddion anffurfiol lluosog yn cael eu cyhoeddi mwyach. |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu mewn perthynas â monitro mewnol yn sgil archwiliad o’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Mae monitro mewnol yn cynnwys gwiriadau diogelu ac ymarferion cysondeb | Cwblhawyd. |

Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **33** |
| **Cwblhawyd** | **27** |
| **Cynnydd da** | **3** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **3** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **0** |
| **Cyfanswm sy’n weddill** | **6** |